Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Hysbysiad Preifatrwydd (Mai 2020) Mynegi Diddordeb Diwrnodau Agored

Er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am ein diwrnodau agored hoffem gasglu rhywfaint o wybodaeth bersonol gennych.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych am yr hyn rydym am ei gasglu, fel rheolwr data, pam mae ei angen arnom, am faint y byddwn yn ei gadw a'ch hawliau.

Rydyn ni fel Coleg am wneud yn siŵr na fyddwch yn colli cyfle i ddod i'n diwrnodau agored. Rydym hefyd am wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio dulliau effeithiol o gyrraedd pobl, ac rydym am gael eich caniatâd i gasglu a defnyddio'ch gwybodaeth at y dibenion hyn. Dyma ein rheswm cyfreithiol am brosesu'ch data.

Y data rydym yn ei gasglu yw: eich enw, eich cyfeiriad e-bost, y meysydd sydd o ddiddordeb i chi a sut glywoch chi am ein diwrnod agored.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni i anfon e-bost atoch i'ch atgoffa am y diwrnod agored ac i'n helpu i gael gwybod beth yw'r ffordd orau o gyrraedd pobl. Bydd y data a gesglir ynghylch sut glywoch chi am y diwrnod agored yn ddienw ac ni chaiff ei rannu â neb y tu allan i'r Coleg.

Mae gennym gyfrifoldeb i gadw'ch data'n ddiogel a byddwn yn ei ddileu erbyn diwedd Awst 2021.

Mae gennych hawliau o ran yr wybodaeth a ddarparwch i ni. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i gyrchu'r wybodaeth honno a'i chywiro os yw'n anghywir. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, gallech fod â'r hawl i wrthwynebu'r prosesu, ei gyfyngu neu ei ddileu.

Gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd y mae'r Coleg wedi prosesu'ch gwybodaeth bersonol www.ICO.org.uk

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelwch Data'r Coleg os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Dpo@gcs.ac.uk